

---

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, 19.03.13

---

**Yn bresennol:** Y Cyngorydd Lesley Day (Cadeirydd);  
Y Cyngorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, Tom Ellis, Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Charles Wyn Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas

**Aelod Cabinet:** Y Cyngorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Gofal Cwsmer)

**Swyddogion:** Geraint George, (Pennaeth Strategol a Gwella), Gwenan Parry (Pennaeth Gofal Cwsmer), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democratiaidd), Huw Ynyr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Busnes), Sion G. Williams (Rheolwr Cyfathrebu) a Gwyn Parry Williams, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyngorwyr Jean Forsyth, Linda W. Jones, Michael Sol Owen a Mandy Williams-Davies.

### Diolchiadau

Diolchodd y cadeirydd i'r cyn-gadeirydd y Cyngorydd Dewi Owen am ei wasanaeth tros y misoedd diwethaf.

### 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** cadarnhau penderfyniad y Cyngor ar 28 Chwefror 2013 i ethol y Cyngorydd Lesley Day yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am weddill 2012/13, i olynu'r Cyngorydd Dewi Owen.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2012 fel rhai cywir.

### 4. CEFNOGAETH I AELODAU

i) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth yn rhoddi diweddariad am y gefnogaeth sydd ar gael a'r datblygiadau a wireddwyd ac ar y gweill.

ii) Mynegwyd barn gan aelodau'r pwyllgor, a nodwyd -

a) Bod aelodau'r Cabinet wedi derbyn manylion am swydd-ddisgrifiadau'r pencampwyr ond nid yw aelodau'r pwyllgor hwn wedi eu derbyn.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth y byddai'n tynnu sylw'r Swyddog Monitro at y mater gan mai hi sy'n gyfrifol am ddatblygu gwybodaeth a.y. ar gyfer y pencampwyr.

b) Tynnwyd sylw gan aelod bod y Cabinet yn ystyried cael dau bencampwr arall a gofynnodd a fyddai'n bosibl i'r pwyllgor gael manylion amdanynt.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Strategol a Gwella, unwaith y ceir penderfyniad gan y Cabinet, fe gyflwynir manylion am y ddau bencampwr arall i'r pwyllgor hwn ac i holl aelodau'r Cyngor.

c) Mewn perthynas â'r Cynulliad Ardal, cyfeiriodd aelod at y posibilrwydd o sefydlu is-bwyllgorau trawsffiniol. Nododd iddo godi'r mater yn y Cyngor ar 28 Chwefror 2013, pryd y cafwyd addewid y rhoddir ystyriaeth iddo.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth bod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd parthed datblygiad y Cynulliad Ardal.

ch) Cyfeiriodd aelod at y bwriad o gael dau Gynulliad Ardal yn Arfon a gofynnodd os y penderfynwyd ar ddaearyddiaeth y ddwy ardal.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer bod angen ymgynghoriad pellach ar hyn gyda'r aelodau, ond i gynrychiolwyr Felinheli a Rhiwlas eisoes awgrymu Bangor/Ogwen a Caernarfon/Dyffryn Nantlle fel dwy ardal.

Gwnaed cynnig gan aelod y dylai'r ddwy ardal gael eu hadnabod fel Caernarfon/Gwyrfaï a Bangor/Dyffryn Ogwen, Pasiwyd y cynnig. Hysbysodd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer y byddai'n nodi'r cynnig hwn fel rhan o'r ymgynghoriad gydag aelodau Ardal Arfon.

d) Nododd aelod i Bwyllgor Ardal Meirionnydd a gynhaliwyd yr wythnos ddiwethaf gytuno yn unfrydol i'w enwi yn Fforwm Ardal Meirionnydd yn hytrach na Chynulliad Ardal ac y dylid cyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn gan ddechrau ym mis Mai 2013. Gofynnodd i'r Aelod Cabinet Gofal Cwsmer nodi hyn fel rhan o'i drafodaethau.

dd) Cyfeiriodd aelod at yr angen i sefydlu grwpiau o fewn yr ardaloedd i ystyried pynciau penodol.

e) Mewn perthynas â gwybodaeth electroneg i aelodau, nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth y cynhaliwyd 13 sesiwn o hyfforddiant i aelodau ar yr i-pad ac erbyn hyn mae 69 o'r aelodau yn eu defnyddio. Derbyniodd y ddesg gymorth sawl ymholiad gan aelodau parthed yr i-pad. Anogodd yr aelodau i barhau i gysylltu â'r ddesg gymorth os y cyfyd unrhyw broblemau ynglyn â hwy.

f) 'Roedd aelod o'r farn y dylid stopio anfon rhaglenni cyfarfodydd a.y. i'r aelodau ar ffurf papur, yn wyneb y ffaith bod y mwyafrif o'r aelodau erbyn hyn yn defnyddio i-pad.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth y trefnir i wneud hyn gan ddarparu copiau papur o raglenni cyfarfodydd a.y. i weddill yr aelodau sydd heb ddarpariaeth electroneg.

ff) Nododd aelod y dylid adrodd yn ôl ar unrhyw broblemau, megis dyddiaduron, derbyn rhai dogfennau nad yw'n bosibl eu newid a.y.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth ei bod yn bwysig iddo gael gwybodaeth am unrhyw rwystredigaethau gyda'r ddarpariaeth.

g) Yn wyneb y ffaith bod y porth gwybodaeth wedi methu, gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl uwchraddio "exchange".

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Gofal Cwsmer y gellid cymryd camau i ail-ddiffinio'r bylchau yn y ddarpariaeth.

Hysbysodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth y bwriedir uwchraddio "exchange" yn ystod y flwyddyn nesaf.

ng) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed trafferthion i dderbyn e-byst gan yr Adran Cynllunio yn ymwneud â cheisiadau cynllunio, hysbysodd y Pennaeth Gofal Cwsmer y rhoddir sylw i hyn.

h) Nododd aelod bod darllen dogfennau ar yr i-pad am gyfnodau hir yn gallu bod yn llafurus i'r llygad a bod cael copiau papur yn llawer haws i'w darllen.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth y byddai'n bosibl tywyllu'r sgrin ychydig.

i) Tynnwyd sylw gan Gadeirydd y Cyngor ei fod yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd yn derbyn copi o bob rhaglen ac y dylid ailedrych ar hyn. Diolchodd i staff yr Adran Dechnoleg Gwybodaeth am yr holl gymorth a dderbynnir ganddynt.

l) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed e-byst yn diflannu o'r system, hysbysodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth y rhoddir sylw i'r mater.

ll) Mewn perthynas â bwletinau gwybodaeth gan Aelodau Cabinet, cyfeiriodd aelod bod rhai adrannau'n rhoddi gwybodaeth i aelodau lleol am faterion sy'n digwydd yn eu hardaloedd ond bod adrannau eraill yn gyndyn o roddi gwybodaeth.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Cyfathrebu y dechreuwyd ar waith ymchwil i ganfod lle mae'r bylchau. Anfonwyd neges i'r aelodau diwedd yr wythnos ddiwethaf a'r cam nesaf fydd anfon holiadur yn ystod yr wythnos hon i weld ac adnabod lle mae'r bylchau'n lleol ac wedyn cynhyrchir y rhifyn cyntaf a anfonir allan canol mis Ebrill.

m) Cyfeiriodd aelod nad yw Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn rhoddi manylion i aelodau lleol am y tenantiad pan osodir tai o fewn eu wardiau ac y dylid cael gwell dealltwriaeth rhyngddynt â'r aelodau.

Mewn ymateb, hysbysodd aelod sy'n cynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd iddi eisoes ofyn iddynt am y wybodaeth hon, ond oherwydd y Ddeddf Diogelu Data nid yw'n bosibl cael gwybodaeth am y tenant. Yr unig wybodaeth maent yn fodlon ei ddatgelu yw manylion am yr eiddo a osodir..

n) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed ymateb i ymholiadau neu gwynion gan aelod lleol, hysbysodd y Pennaeth Strategol a Gwella y dylent ddefnyddio'r cyfundrefnau priodol yn y lle cyntaf gan bod hynny'n fwy tebygol o arwain at ddatrasiad i'r ymholiad.

o) 'Roedd aelod o'r farn y dylai'r pencampwyr yn ogystal ag aelod unigol gael yr hawl i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Cabinet.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau uchod.**

## **5. GWE DDARLLEDU A MYNYCHU CYFARFODYDD O BELL**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gofal Cwsmer bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ceisio hyrwyddo democratiaeth lleol a bod yn fwy cynhwysol wrth sicrhau mewnbwn ac ymrwymiad gan y cyhoedd. Mae Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn nodi bod awdurdodau lleol yn y sefyllfa orau i weithio gyda chynghorau cymuned/tref er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at wybodaeth am waith a busnes y cynghorau hynny, a sut i gysylltu â hwy. Yn ychwanegol, mae Adran 4 o'r Mesur yn nodi'r gofyn i awdurdodau sicrhau bod aelodau etholedig yn gallu "mynychu cyfarfodydd o bell", h.y. nad oes rhaid i bob person (aelod) fod yn bresennol yn yr un ganolfan ar gyfer cynnal cyfarfod. Ni chyhoeddwyd canllawiau penodol gan Lywodraeth Cymru hyd yma ar sut yn union i gyflawni anghenion y ddeddf

Nododd y derbyniwyd gwybodaeth dechrau'r flwyddyn gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau am ddyrannu grantiau ar gyfer ymateb i'r elfennau uchod. Ar 21 Chwefror 2013, derbyniwyd copi o gytundeb grant gyda chyfarwyddyd i'w arwyddo a'i ddychwelyd erbyn 7 Mawrth 2013 a oedd yn datgan y bydd hyd at £72,000 ar gael i'r Cyngor sef –

- £42,000 ar gyfer darlledu cyfarfodydd y Cyngor a chaniatau i aelodau ymuno â chyfarfodydd "o bell"
- £30,000 ar gyfer dyrannu grant o hyd at £500 yr un i gynghorau cymuned Gwynedd i sefydlu eu gwefannau eu hunain.

Cyfeiriodd at y ffaith bod y grant ar gyfer gwariant am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013 ac yn gorfod cael ei hawlio'n llawn erbyn 31 Mawrth 2013. Fodd bynnag, mae darpariaeth ar gyfer trosglwyddo'r gwariant i 2013/14. Gan bod yr amserlen ar gyfer ymateb i gyflwyno cais am grant wedi bod yn hynod o dynn, cytunwyd y dylid derbyn y grant am y tro, gyda gwaith pellach i'w gynnal yn fewnol parthed sut y gellir darlledu cyfarfodydd y Cyngor tros y we.

Nododd bod y Cyngor mewn sefyllfa hynod fanteisiol gan bod yr is-adeiledd ar gyfer darlledu cyfarfodydd fel hyn wedi ei fewnosod yn Siambr Dafydd Orwig yn ystod yr wythnosau diwethaf ac yn ran o brosiect Siambr Hywel Dda. Byddai hyn yn caniatáu i aelodau ymuno â chyfarfodydd yn y siambrau hyn o'r ystafelloedd fideo gynadledau yn Nolgellau a Phwllheli.

Er mwyn gallu darlledu'n effeithiol a dwyieithog, fe ymddengys ar hyn o bryd y bydd angen prynu gwasanaeth golygu/darlledu. Mae un cwmni arbennig yn darparu'r gwasanaeth hwn yng Nghymru a derbyniwyd dyfynbris o £32,000 ganddynt am gytundeb i ddarlledu cyfarfodydd am ddwy flynedd. Parheir i ymchwilio i'r dull gorau a mwyaf cost effeithiol o ddarlledu, gan weithio ar y cyd â chynghorau eraill a cheisio arweiniad gan Lywodraeth Cymru o ran yr hyn sy'n ddisgwyliedig.

Mewn perthynas â'r dyraniad grant o hyd at £500 ar gyfer pob cyngor cymuned/tref i ddarparu gwefannau, disgwylir i'r Cyngor hwn weinyddu'r grant ar eu cyfer. Trafodir yr elfen hon gyda'r Adran Economi Adfywio gyda'r nôd o ymgymryd â'r gwaith hwn.

b) Mynegwyd barn gan aelodau'r pwyllgor, a nodwyd -

i) Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl cysylltu cyn gynted â phosibl â'r cynghorau cymuned/tref i dynnu eu sylw at y grant.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Gofal Cwsmer mai prin yw'r manylion ar hyn o bryd ond o ran cynllunio'n ariannol ar gyfer y flwyddyn nesaf, byddai'n fuddiol iddynt gael y wybodaeth.

ii) Tynnwyd sylw gan aelod y cynhelir y Pwyllgor Cynllunio yn y dair ardal yn ei dro, ac ar adegau, bydd yr aelodau lleol, nad ydynt efallai yn aelodau o'r pwyllgor, yn gorfod teithio cryn bellter i'r cyfarfodydd hyn. Cyfeiriodd at y posibilrwydd gyda'r system newydd hon i aelodau lleol, dyweder o Ardal Arfon, os y cynhelir y pwyllgor unai ym Mhwhllheli neu Dolgellau, i fod yn ran o'r drafodaeth yn Siambr Hywel Dda.

iii) Gofynnodd aelod am sicrwydd y byddai'r capasiti yn cael ei adeiladu o fewn y Cyngor i ddarlledu'r cyfarfodydd ar ôl i gytundeb y cwmni ddod i ben ar derfyn y ddwy flynedd.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Gofal Cwsmer bod yr egwyddor yn bwysig ac y ceisir lansio rhywbeth sy'n gynaliadwy a rhoddir ystyriaeth i'r awgrym.

iv) Nododd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer y cyfeiriwyd at y posibilrwydd o gael capasiti o fewn y Cyngor i barhau gyda darlledu cyfarfodydd ac i gynorthwyo cynghorau cymuned/tref, ond gan ei bod yn gyfnod heriol i'r Cyngor, rhaid bod yn wyladwrus.

## **PENDERFYNWYD**

**a) Caniatáu i'r swyddogion perthnasol wneud ymchwil pellach ar y gwaith sydd ynghlwm â gofynion y Mesur pan ddaw'r canllawiau llawn, a'r posibiliadau o ran defnyddio'r arian grant.**

**b) Bod y swyddogion perthnasol i drafod y mater gyda Chadeirydd y Pwyllgor a chyflwyno adroddiad pellach i'r pwyllgor nesaf ar 4 Mehefin 2013.**

## **6. ADRODDIADAU AELODAU**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella ar y gofynion, amserlen a risgiau er mwyn penderfynu ar gyfeiriad ar gyfer gweddill yr aelodau.

Nododd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor wneud trefniadau i alluogi aelodau i gyhoeddi adroddiad blynyddol ond nid oes gorfodaeth ar unrhyw aelod i baratoi adroddiad o'r fath. Mae'n ddewis i unrhyw aelod gyhoeddi adroddiad blynyddol ac argymhellodd bod yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer a Chadeirydd y Pwyllgor hwn yn llunio adroddiad blynyddol ar gyfer 2012/13 er mwyn gallu arbrofi a dysgu o'r gwahanol enghreifftiau. Cyfeiriodd at yr eitemau y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad a hefyd y risgiau. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad yn flynyddol ym mis Mehefin.

b) Mynegwyd barn gan aelodau'r pwyllgor, a nodwyd -

i) Ei bod yn bwysig i bob aelod gadw cofnod o'r cyfarfodydd a.y. y bu iddynt fynychu yn ystod y flwyddyn.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth bod ceisio cadw cofnod yn bwysig iawn. Nododd bod llawer o wybodaeth ar gael o fewn y Cyngor e.e. hyfforddiant aelodau, cyfarfodydd a fynychwyd a.y. ond nid oes manylion o'r cyfarfodydd a fynychwyd tu allan i'r Cyngor.

ii) Dylid ystyried yr adnoddau sydd ar gael o fewn y Cyngor i ymgymryd â'r gwaith hwn.

iii) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed cynnwys adroddiadau llywodraethwyr ysgolion o fewn yr adroddiad blynyddol, hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth y byddai hynny bosibl, ond mai mater i'r aelodau eu hunain yw penderfynu os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**PENDERFYNWYD bod yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd i lunio adroddiad blynyddol ar gyfer 2012/13 er gosod cyfeiriad a rhoddi arweiniad, gyda gweddill aelodau'r Cyngor i lunio adroddiadau o 2013/14 ymlaen, yn unol â'i dymuniad.**

## **7. HYFFORDDIANT AELODAU**

a) Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd yr Is-Grŵp Hyfforddiant, y Cynghorydd Dilwyn Morgan.

Atgoffodd yr aelodau o'r penderfyniad i sefydlu is-grŵp i ystyried yn benodol hfforddiant i aelodau. Penderfynodd yr is-grŵp i sefydlu grŵp ffocws a oedd yn cynnwys aelodau etholedig er ceisio annog aelodau i gymryd perchenogaeth o'r rhaglen hyfforddiant. Nododd y cynhaliwyd cyfarfod o'r grŵp ffocws ym Mhorthmadog ar 18 Chwefror 2013 a thynnodd sylw at y prif faterion a drafodwyd

sef Diffinio Pwrpas Rhaglen Dysgu a Datblygu; Beth mae Rhaglen Ddatblygol/Hyfforddiant yn ei olygu i chwi a Pha elfennau yr hoffech i raglen ddatblygol/hyfforddiant ei gynnwys. 'Roedd y grŵp ffocws o'r farn ei bod yn bwysig bod aelodau unigol yn cymryd cyfrifoldeb personol am y rhaglen ddatblygu. Bydd y tîm Dysgu a Datblygu yn ymgorffori holl ddyheadau'r grŵp ffocws i raglen hyfforddiant y dyfodol.

b) Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth at ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau y darperir cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'r aelodau. Yn ogystal, rhaid sicrhau y rhoddir cyfle i bob aelod gael adolygiad blynyddol o'i anghenion hyfforddi a datblygu. Tynnodd sylw at y posibilrwydd o ennill Siarter Cefnogi a Datblygu ar gyfer y Cyngor. Nododd i'r Cyngor ennill y Siarter yn y gorffennol.

### **PENDERFYNWYD**

**a) Bod y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu yn mynd rhagddo gyda chynllunio ac addasu'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer aelodau, yn seiliedig ar waith yr Is-grŵp Hyfforddiant**

**b) Caniatau i'r swyddogion perthnasol wneud ymchwil pellach ar y gwaith sydd ynghlwm â'r Mesur a'r Siarter, a thrafod y mater gyda Cadeirydd y Pwyllgor a chyflwyno adroddiad pellach i'r cyfarfod nesaf ar 4 Mehefin 2013.**

## **8. SYSTEM BLEIDLEISIO**

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth at y gwahanol opsiynau sydd ar gael o fewn y system bleidleisio newydd yn Siambr Dafydd Orwig.

Nododd yr aelodau y sylwadau canlynol –

- Y dylai'r bleidlais ymddangos ar y sgrin ar ddiwedd pleidlais arferol a ddim tra mae'r bleidlais yn digwydd.
- Bod y ffordd hon o bleidleisio yn gymhleth i bwyllgor gan bod y broses o agor a chau'r bleidlais a.y. yn cymryd mwy o amser na chodi dwylo i bleidleisio.
- Y dylai enw pob aelod ymddangos ar y sgrin ar ddiwedd pob pleidiais yn dangos y ffordd y bu iddynt bleidleisio.
- Nad yw'r system hon yn addas i bwyllgor bychan.

Addawodd y swyddogion roddi sylw i'r sylwadau hyn.

Dechreuodd y cyfarfod am 10,00am a daeth i ben am 12.00